# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD MAWRTH, 6 GORFFENNAF 2021

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr : Anwen Hughes (Cadeirydd), Edgar Owen a Roy Owen**

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Moira Duell-Parry (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

**Ar ran yr eiddo:**

Nia Jones (ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:**

Aelod Lleol: Cynghorydd Gareth Thomas

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Y Griffin, Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol, cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan nodi gwrthwynebiad gan Adran Gwarchod y Cyhoedd ac amodau arfaethedig gan Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd gwrthwynebiad Adran Gwarchod y Cyhoedd yn amlygu pryderon sŵn o ganlyniad i adloniant tu allan yn hwyr yn y nos ar yr eiddo fyddai'n arwain at greu niwsans cyhoeddus i breswylwyr tai cyfagos. Yn dilyn cyfres o e-byst, derbyniwyd gohebiaeth gan yr ymgeisydd yn cadarnhau bod bwriad adeiladu darpariaeth bwrpasol ar gyfer adloniant byw tu allan, ond nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau. Mynegodd yr ymgeisydd ei dymuniad i dynnu'r elfen *adloniant tu allan* o'r cais hyd nes y bydd mewn sefyllfa i roi mesurau priodol mewn lle. O ganlyniad, roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd yn tynnu eu gwrthwynebiad i'r cais yn ôl, yn ddarostyngedig bod yr ymgeisydd yn cadarnhau yn y gwrandawiad nad oedd bwriad cynnal adloniant tu allan am y tro.

Ategwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gynnwys amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng (TCC), hyrwyddo Menter Her 25 a chynnal asesiad risg pan fydd angen goruchwylwyr drysau, ar gais yr Heddlu.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn caniatáu'r cais pe byddai'r ymgeisydd yn cadarnhau diddymu'r bwriad i gynnal adloniant tu allan oddi ar y cais: ac yn unol ag argymhellion yr Heddlu â gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Ei bod yn hapus gyda'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y Rheolwr Trwyddedu
- Ei bod yn tynnu'r elfen *adloniant tu allan* o'r cais am y tro – y ddarpariaeth heb ei gwblhau
- Popeth mewn trefn i agor

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phwysleisio'r angen i sicrhau bod recordiadau TCC yn cael eu cadw am 30 diwrnod, nododd y Swyddog Trwyddedu bod hyn yn rhan o argymhellion yr Heddlu a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gydymffurfio yn llawn a'r gofynion hyn.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, manteisiodd yr Aelod Lleol oedd yn bresennol, ar y cyfle i gyflwyno sylwadau

Aelod Lleol - Cynghorydd Gareth Thomas

- Ei fod yn llwyr gefnogol i'r cais
- Braf gweld busnes yn agor yn y sector lletygarwch
- Bod yr ymgeisydd a'i theulu wedi buddsoddi'n sylweddol yn y fenter
- Y dafarn yn adnodd pwysig i'r pentref
- Bod cynlluniau i ehangu defydd tu allan ond bydd cais yn cael ei gyflwyno pan fydd caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn a'r gwaith wedi ei gwblhau
- Balch gweld y Griffin yn ail agor a hynny gan ddwylo diogel

Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Ei bod yn ddiolchgar o'r cyfle i gynnal trafodaeth
- Byddai'r fenter yn cyflogi yn lleol
- Y Griffin yn galon i'r pentref, yn dafarn deuluol gyda gardd - y tîm peldroed eisoes yn ysu i'r dafarn ail agor

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn hapus gyda chadarnhad yr ymgeisydd bod adloniant tu allan yn cael ei dynnu allan o'r cais ac mai cais diwygiedig fyddai'n cael ei ystyried. Y bwriad yw parhau i gydweithio gyda'r ymgeisydd ac Adran Gwarchod y Cyhoedd fel bod modd sicrhau ardal briodol tu allan i'r eiddo i'r dyfodol.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr Aelod Lleol a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb sylwadau llafar a gyflwynwyd yn ystod y gwrandawiad ac adroddiad y Swyddog Trwyddedu. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn

ii. Atal niwsans cyhoeddus

iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus

iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais**

**Rhoddwyd trwydded fel a ganlyn:**

1. **Oriau agor**
   **Amserau safonol:**
   - **Sul-Mercher 08:00-00:00**
   - **Iau 08:00-00:30**
   - **Gwener-Sadwrn 08:00-01:00**

   **Amserau ansafonol:**
   - **Awr derfynol 01:00 ar Benwythnosau Gŵyl Banc**
   - **Awr derfynol 02:00 ar Noswyl Calan**

2. **Cerddoriaeth fyw tu mewn yn unig**
   **Amserau safonol:**
   - **Sul-Mercher 11:00-23:00**
   - **Iau-Sadwrn 11:00-00:00**

   **Amserau ansafonol:**
   - **Awr derfynol 00:30 ar Benwythnosau Gŵyl Banc**
   - **Awr derfynol 01:00 ar Noswyl Calan**

3. **Cerddoriaeth wedi recordio tu mewn yn unig**
   **Amserau safonol:**
   - **Sul-Mercher 11:00-23:00**
   - **Iau-Sadwrn 11:00-00:00**

   **Amserau ansafonol:**
   - **Awr derfynol 00:30 ar Benwythnosau Gŵyl Banc**

- **Awr derfynol 01:00 ar Noswyl Calan**

4. **Cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo**
   **Amserau safonol:**
   - **Sul-Mercher 11:00-23:30**
   - **Iau 11:00-00:00**
   - **Gwener-Sadwrn 11:00-00:30**

   **Amserau ansafonol:**
   - **Bar allanol yn cau 22:30**
   - **Awr derfynol 00:30 tu mewn ar Benwythnosau Gŵyl Banc**
   - **Awr derfynol 01:30 tu mewn ar Noswyl Calan**

5. **At ddibenion yr amodau hyn, diffinnir Penwythnosau Gŵyl Banc fel cyfnod yn cychwyn ar ddydd Gwener ac yn gorffen ar y dydd Llun canlynol pan fo diwrnod o fewn y cyfnod hwnnw yn ŵyl banc.**

6. **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

7. **Ymgorfforir fel amodau ar y drwydded yr amodau a argymhellwyd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â gwirio oedran, goruchwylwyr drws a TCC.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth arbennig i sylwadau Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor. Amlygwyd gwrthwynebiad i'r cais gwreiddiol o ran pryderon niwsans cyhoeddus yn deillio o adloniant yn cael ei gynnal tu allan, yn hwyr. Ystyriwyd hefyd sylwadau Heddlu Gogledd Cymru oedd yn argymell cynnwys amodau safonol mewn perthynas â rheoli oedran, goruchwylwyr drws a TCC. Ystyriwyd sylwadau'r ymgeisydd a gadarnhaodd diwygiad i'r cais i beidio â chynnwys cynnal gweithgaredd trwyddedig cerddoriaeth tu allan am y tro. Derbyniwyd bod bwriad cyflwyno cais maes o law i gynnwys y gweithgareddau hyn ar y drwydded unwaith y bydd gwaith addasu ar yr eiddo wedi ei gwblhau.

Ni ddaeth yr Is-bwyllgor i gasgliad naill ffordd neu llall a fyddai'r cais gwreiddiol wedi tanseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus, gan nad oedd gofyn ystyried y mater wedi diwygiad i'r cais. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y diwygiad i gyfyngu adloniant cerddoriaeth i du mewn i'r eiddo yn unig yn golygu bod y risg sŵn bellach yn isel iawn ac felly na fyddai niwed i'r amcan o atal niwsans cyhoeddus.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais diwygiedig yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

**CADEIRYDD**